

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Mesur Seneddol ynghylch Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau

Hydref 2010

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir am y Mesur Seneddol ynghylch Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau, a gyflwynwyd i Senedd y DU gan y Gwir Anrhydeddus Nick Clegg AS, y Dirprwy Brif Weinidog, ar 22 Gorffennaf 2010.

Mae'r Mesur Seneddol yn cynnwys dwy ddarpariaeth allweddol sy'n uniongyrchol berthnasol i Gymru. Ei nod yw darparu ar gyfer refferendwm ar ddewis rhwng y system Cyntaf-i'r-felin (FPTP) neu'r Bleidlais Amgen (AV) fel y system ar gyfer ethol Aelodau'r Tŷ Cyffredin, a newid y system etholaethol ar gyfer y Tŷ i'r Bleidlais Amgen, os bydd canlyniad y refferendwm yn cefnogi hynny. Nod y Mesur Seneddol hefyd yw darparu ar gyfer lleihau nifer y seddi yn Nhŷ'r Cyffredin o 650 i 600 a chyflwyno etholaethau sy'n fwy cyfartal o ran maint.

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r 60 o Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur drwy safle'r Cynulliad Cenedlaethol ar:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ebost: MembersLibrary@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Mesur Seneddol ynghylch Pleidleisio
Seneddol ac Etholaethau

Hydref 2010

Owain Roberts
Alys Thomas

Rhif dogfen: 10 / 067

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau



Crynodeb

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir am y [Mesur Seneddol ynghylch Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau](#), a gyflwynwyd i Senedd y DU gan y Gwir Anrhydeddus Nick Clegg AS, ar 22 Gorffennaf 2010. Trafodwyd y Mesur Seneddol yn ystod yr Ail Ddarlleniad ar 6 Medi 2010, pan bleidleisiodd Tŷ'r Cyffredin o blaid iddo gael ei drafod gan Bwyllgor o'r Tŷ Cyfan.

Mae'r Mesur Seneddol yn cynnwys dwy ddarpariaeth allweddol sy'n uniongyrchol berthnasol i Gymru. Y rhain yw:

- Darparu ar gyfer refferendwm ar ddewis rhwng y system Cyntaf-i'r-felin (FPTP) a'r Bleidlais Amgen (AV) fel y system ar gyfer ethol Aelodau'r Tŷ Cyffredin, a newid y system etholaethol ar gyfer y Tŷ i'r Bleidlais Amgen, os yw canlyniad y refferendwm yn cefnogi hynny; a
- Darparu ar gyfer lleihau nifer y seddau yn Nhŷ'r Cyffredin a chael etholaethau o faint mwy cyfartal, drwy wneud newidiadau i reolau'r adolygiadau o ffiniau i alluogi'r Comisiynau Ffiniau i lunio etholaethau newydd yn ystod y Senedd bresennol. Drwy wneud hyn, nod y Mesur Seneddol yw datgysylltu etholaethau Senedd y DU ac etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
2.	Y Mesur Seneddol ynghylch Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau: darpariaethau allweddol	2
2.1.	Rhan 1 : Y system bleidleisio ar gyfer etholiadau Seneddol	2
2.2.	Rhan 2 : Etholaethau Seneddol	3
3.	Ymateb i'r cynigion	6
3.1.	Dyddiad y refferendwm	6
3.2.	Lleihau nifer yr etholaethau	8
3.3.	Amseru	9
4.	Goblygiadau i Gymru	11
4.1.	Dyddiad y refferendwm	11
4.2.	Datgysylltu etholaethau Cymru.....	11
4.3.	Lleihau nifer yr etholaethau yng Nghymru	12
5.	Dadl yr Ail Ddarlleniad	14
5.1.	Egwyddorion y Mesur Seneddol	14
5.2.	Dyddiad y Refferendwm.....	15
5.3.	Lleihau nifer yr etholaethau	18
5.4.	Datganoli	19
5.5.	Trothwy ar gyfer y nifer sy'n pleidleisio	21
5.6.	Diddymu Ymchwiliadau Cyhoeddus	22
5.7.	Cofrestru Pleidleiswyr.....	23

Y Mesur Seneddol ynghylch Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau

1. Cyflwyniad

Ar 5 Gorffennaf 2010, gwnaeth y Gwir Anrhydeddus Nick Clegg AS, y Dirprwy Brif Weinidog, ddatganiad yn Nhŷ'r Cyffredin ar *Ddiwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol*, pan gyhoeddodd fwriad y Llywodraeth i gyhoeddi Mesur Seneddol ynghylch Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau.¹

Lluniwyd y Mesur Seneddol o ganlyniad i gytundeb y glymblaid, sef rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, a gyhoeddwyd ar ôl Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Mai 2010. Mae'r cytundeb yn datgan bwriad Llywodraeth y DU:

The parties will bring forward a Referendum Bill on electoral reform, which includes provision for the introduction of the Alternative Vote (AV) in the event of a positive result in the referendum, as well as for the creation of fewer and more equal sized constituencies.²

Mae'r cynigion hyn yn cynrychioli cyfaddawd mawr ar ran dau bartner y glymblaid. Mae'r Athro Robert Hazell yn crynhoi safbwynt y ddwy blaid ar y mater isod:

The Conservatives are staunch supporters of First past the Post (FPTP) and see no need for change. The Liberal Democrats have long supported the Single Transferable Vote (STV), and will see AV as a very poor substitute, since it is not a proportional system. Hence the provision that after being whipped to support a referendum on AV in Parliament, the parties will be free to fight on opposing sides during the referendum campaign. Ironically the one party which does formally support a referendum on AV is the Labour party, although in practice the Labour party are divided on the issue.

The Conservatives and Liberal Democrats are closer together in wishing to reduce the size of the House of Commons: the Conservatives to 585, the Lib Dems to 500. This is a more difficult proposal to implement, because it involves a wholesale redrawing of all constituency boundaries, which is difficult to do inside one parliament.³

Mae'r Mesur, ynghyd â'r Mesur Seneddol ynghylch Seneddau Cyfnod Penodol⁴, yn rhan allweddol o becyn Llywodraeth y DU ar gyfer diwygio seneddol a chyfansoddiadol.

¹ [Trafodion Tŷ'r Cyffredin, 5 Gorffennaf 2010, c24](#)

² [Llywodraeth y DU, *The Coalition : our programme for government*, Mai 2010, Adran 24](#)

³ [Hazell, Robert \(2010\) *The Conservative-Liberal Democrat Agenda for Constitutional and Political Reform*, yr Uned Gyfansoddiadol : Coleg Prifysgol Llundain, Mehefin 2010](#)

⁴ Gweler [papur ymchwil 10/066 Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau](#)

2. Y Mesur Seneddol ynghylch Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau: darpariaethau allweddol

2.1. *Rhan 1 : Y system bleidleisio ar gyfer etholiadau Seneddol*

Mae cymal 1 o'r Mesur Seneddol yn datgan y bydd refferendwm ar y system Pleidlais Amgen yn cael ei gynnal ar 5 Mai 2011; yr un diwrnod â'r etholiadau ar gyfer deddfwrfeydd datganoledig yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, a'r etholiadau lleol yn Lloegr. Mae hefyd yn darparu bod y cwestiwn a ganlyn yn ymddangos ar y papurau balot, ynghyd â chyfieithiad Cymraeg yng Nghymru:

Ydych chi am i'r Deyrnas Unedig ddilyn y system 'pleidlais amgen' yn lle'r system gyfredol 'y cyntaf i'r felin' ar gyfer ethol aelodau Seneddol i Dŷ'r Cyffredin?⁵

Mae cymal 7 o'r Mesur Seneddol yn amlinellu'r system etholiadol a fyddai'n dod i rym os bydd y mwyafrif yn pleidleisio o blaid mabwysiadu system o'r fath yn y refferendwm. O dan y system Pleidlais Amgen a nodir yn y Mesur Seneddol, rhaid i ymgeiswyr gael mwy na 50 y cant o'r pleidleisiau yn y broses gyfrif – naill ai yn ystod y cam cychwynol neu, os bydd angen, yn ystod yr ail gam cyfrif – er mwyn cael eu hethol.

Mae Uned Gyfansoddiadol Coleg Prifysgol Llundain wedi darparu disgrifiad a chrynodeb o'r system Pleidlais Amgen, sydd i'w gweld isod, er gwybodaeth:

AV is a preferential voting system which ensures that each MP is elected by more than half the votes in their constituency. Voters rank the candidates, and losing candidates are successively eliminated until one gets more than half the votes. It is not proportional. If AV had been used in the 2010, the results would not have been hugely different, but would have hurt the Conservatives most. The Electoral Reform Society estimates the Conservatives would have got around 280 seats, Labour 260 and the Lib Dems 80 seats under AV.⁶

Mewn datganiad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Gorffennaf 2010, cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog y byddai newid system etholiadol y DU yn helpu i gywiro'r anhegwch difrifol o ran sut y cynhelir etholiadau yn y wlad hon.⁷ Ychwanegodd mai diben y refferendwm fyddai rhoi cyfreithlondeb newydd i system etholiadol y DU drwy roi'r cyfle i bobl ddweud eu dweud ynghylch rhywbeth mor sylfaenol â sut y maent yn ethol eu Haelodau Seneddol.⁸

⁵ [Y Mesur Seneddol ynghylch Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau](#)

⁶ [Hazell, Robert \(2010\) *The Conservative-Liberal Democrat Agenda for Constitutional and Political Reform, yr Uned Gyfansoddiadol, Coleg Prifysgol Llundain, Mehefin 2010*](#)

⁷ [Trafodion Tŷ'r Cyffredin, 5 Mehefin 2010, c24](#)

⁸ Ibid

Er bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi cydnabod pryderon Aelodau Seneddol ynghylch cynnal nifer o etholiadau ar yr un diwrnod, nododd y byddai'r cynnig hwn yn arbed tua £17 miliwn.⁹

2.2. Rhan 2 : Etholaethau Seneddol

Mae'r rhan hon o'r Mesur Seneddol yn cynnig lleihau nifer yr etholaethau Seneddol o 650 i 600 a chadw nifer yr Aelodau Seneddol i'r nifer honno.

Yn ogystal â darparu system fwy cyfartal (bydd gan bob etholaeth tua 75,000 o bleidleiswyr), nod y cynigion yw torri'r costau sy'n gysylltiedig â nifer fwy o Aelodau, a fyddai'n arbed £12 miliwn ychwanegol y flwyddyn. Nod y cynnig hwn hefyd yw cysoni maint Tŷ'r Cyffredin â maint deddfwrfeydd eraill ledled y byd.¹⁰

Bydd y Mesur Seneddol hefyd yn diwygio'r broses o gynnal adolygiadau o ffiniau. Ar hyn o bryd, y pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol sy'n cynnal yr adolygiadau ffiniau, un ar gyfer pob rhan o'r DU. Cyrff cyhoeddus anadrannol cynghorol a ariennir gan Swyddfa'r Cabinet yw'r rhain a rheolir eu gwaith gan *Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986*¹¹ (mesur cyfuno) a ddiwygwyd gan *Ddeddf Comisiynau Ffiniau 1992*¹² a *Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000*.¹³

O dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae'n ofynnol bod y pedwar Comisiwn Ffiniau yn adolygu eu hetholaethau seneddol yn barhaus ac yn cynnal adolygiad cyffredinol o'r holl etholaethau yn eu hardal bob hyn a hyn (pob 8 i 12 blynedd) ac yn cyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol yn dangos yr etholaethau newydd y maent yn eu hargymell.

Y sefyllfa ar hyn o bryd yw ei bod yn ofynnol i bob Comisiwn Ffiniau roi cyhoeddusrwydd i'w argymhellion dros dro ar gyfer ardal awdurdod lleol mewn hysbysiad a roddir mewn o leiaf un papur newydd sy'n cael ei gylchredeg ym mhob etholaeth yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw. Caiff y cynigion hefyd eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn ac anfonir copïau o'r hysbysiad i bawb sydd â diddordeb, gan gynnwys awdurdodau lleol ac Aelodau Seneddol. Rhaid gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig ynghylch yr argymhellion dros dro o fewn mis i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi. Gofynnir i'r rheini sy'n gwneud cyflwyniadau ddweud a ydynt yn cymeradwyo neu'n gwrthwynebu cynigion y Comisiwn, a chynghorir unrhyw wrthwynebwyr i gyflwyno cynigion amgen.

Rhaid cynnal ymchwiliad lleol i ganfod barn y cyhoedd os bydd cyflwyniadau'n dod i law gan awdurdod lleol sydd â diddordeb neu gorff o fwy na 100 o etholwyr sy'n

⁹ Ibid

¹⁰ [Trafodion Tŷ'r Cyffredin, 5 Gorffennaf 2010, c24](#)

¹¹ [Deddf Etholaethau Seneddol 1986 \(c.56\)](#)

¹² [Deddf y Comisiynau Ffiniau 1992 \(c.55\)](#)

¹³ [Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 \(c.41\)](#)

gwrthwynebu argymhellion dros dro y Comisiwn. Mae gan y Comisiwn y disgresiwn hefyd i orchymyn y dylid cynnal ymchwiliad lleol os bydd yn credu y byddai budd i'w gael o gynnal ymchwiliad o'r fath. Cynhelir ymchwiliadau lleol ar ran y Comisiynau Ffiniau gan Gomisiynwyr Cynorthwyol (cyfreithwyr annibynnol). Os bydd Comisiwn Ffiniau'n penderfynu cynnal ymchwiliad lleol, bydd hyn yn cael ei gyhoeddi chwe wythnos cyn y cynhelir yr ymchwiliad drwy gyhoeddi hysbysiad amdano yn y wasg leol. Bydd y Comisiwn Ffiniau'n cyhoeddi datganiad yn nodi'r rhesymau dros ei argymhellion dros dro a'r materion sy'n debygol o godi yn yr ymchwiliad. Nid oes gweithdrefn benodol wedi'i nodi ar gyfer cynnal ymchwiliad lleol: caiff hyn ei adael at ddisgresiwn y Comisiynydd Cynorthwyol.

Ar ddiwedd yr ymchwiliad, bydd y Comisiynydd Cynorthwyol yn paratoi adroddiad ac yn ei gyflwyno i'r Comisiwn Ffiniau; gall argymhell y dylid derbyn y cynigion gyda newidiadau neu hebddynt, neu gall argymhell y dylid mabwysiadu cynnig amgen, wedi ei addasu neu beidio, cyhyd â'i fod yn cydymffurfio â'r rheolau a'i fod yn ymddangos iddo ei fod yn cael mwy o gefnogaeth yn lleol na chynigion y Comisiwn.

Ar ôl yr ymchwiliad lleol, bydd y Comisiwn Ffiniau'n ystyried y cyflwyniadau ysgrifenedig, adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol a thrawsgrifiad gair-am-air o'r materion a drafodwyd yn yr ymchwiliad. Os bydd y Comisiwn Ffiniau wedyn yn penderfynu diwygio ei argymhellion dros dro, cyhoeddir yr argymhellion hynny, eto o fewn un mis i gyhoeddi'r hysbysiad hwn. Gellir cynnal ymchwiliad lleol arall ond, yn gyffredinol, bydd y Comisiynau Ffiniau'n dymuno osgoi cost ail ymchwiliad lleol ac yn gobeithio mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y cynhelir y rhain.

Dim ond ar ôl i Gomisiwn Ffiniau benderfynu ar yr argymhellion terfynol ar gyfer yr holl wlad berthnasol y bydd yn cyflwyno ei adroddiad terfynol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Nod y Mesur Seneddol hwn yw cyflwyno darpariaethau newydd a fydd yn sicrhau y gellir cynnal proses adolygu gyflymach y mae'n rhaid iddi hefyd ystyried nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth er mwyn osgoi'r gwahaniaethau mawr sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng etholaethau. Cyflwynwyd y cynigion hyn gan y Dirprwy Brif Weinidog fel rhai pwysig o ran sicrhau bod pleidleisiau pawb yr un mor bwysig, ble bynnag y maent yn byw.¹⁴

¹⁴ [Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 \(c.24\)](#)

Mae Rhan 2 o'r Mesur Seneddol hefyd yn disodli'r Atodlen 2 bresennol i *Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986*¹⁵ ac yn cyflwyno cyfres newydd o reolau ar gyfer dyrannu seddi. Bydd y rheolau newydd hyn:

- Yn pennu nifer sefydlog o 600 o Aelodau yn Nhŷ'r Cyffredin;
- Yn darparu y bydd nifer yr etholaethau ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig yn cael ei gosod ar sail maint yr etholaeth ym mhob rhan o'r DU;
- Yn gosod terfyn ar yr amrywiad a ganiateir yn nifer yr etholwyr cofrestredig ar gyfer etholaeth a argymhellir gan Gomisiwn Ffiniau. Yn benodol, mae'n ei gwneud yn ofynnol bod y Comisiynau Ffiniau'n argymhell ffiniau etholaethau sy'n sicrhau bod nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth ddim mwy na 5% yn fwy neu'n llai na'r cwota etholaethol ar gyfer y DU (sef tua 75,000 ar hyn o bryd).
- Yn darparu ar gyfer dwy etholaeth wedi'u cadw yn yr Alban¹⁶ fel eithriadau i'r egwyddor hwn o gydraddoldeb etholaethol;
- Yn gosod terfyn ar faint daearyddol etholaeth;
- Yn darparu ar gyfer mynd i'r afael ag effaith posibl crynhau i rif cyfan wrth bennu etholaethau ar gyfer Gogledd Iwerddon;
- Yn diwygio'r broses ar gyfer cynnal adolygiadau o ffiniau; yn benodol yn rhoi diwedd ar yr arfer o gynnal ymchwiliadau lleol ac yn estyn y cyfnod ymgynghori o'r cyfnod presennol o un mis i 12 wythnos (mae disgwyl i'r Comisiynau gyflwyno'r adroddiadau hyn o dan y ddeddfwriaeth hon cyn 1 Hydref 2013 a phob pum mlynedd wedi hynny); ac
- Yn torri'r cyswllt presennol rhwng etholaethau San Steffan ac etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

¹⁵ [Deddf Etholaethau Seneddol 1986 \(c56\)](#)

¹⁶ Yr etholaetau hyn yw 'Orkney a Shetland' a'r 'Western Isles'.

3. Ymateb i'r cynigion

3.1. *Dyddiad y refferendwm*

Wrth ymateb i ddatganiad y Dirprwy Brif Weinidog ar ran yr Wrthblaid, dadleuodd y Gwir Anrhydeddus Jack Straw QC AS nad oedd cynigion Llywodraeth y DU i gynnal refferendwm ar ddiwygio'r dull pleidleisio ar yr un diwrnod ag etholiadau eraill yn dilyn cynsail y refferenda blaenorol a gynhaliwyd yn y DU:

Will he [the Deputy Prime Minister] confirm that none of the four previous referendums held in the United Kingdom – the EU referendum in 1975, and the more recent Scottish, Welsh and Northern Ireland referendums – has been held on the same day as elections? What is the argument for not following that precedent? Would it not have been altogether more sensible to consult widely on the best possible date and then to add the date to the Bill in due course? What is the argument against that?¹⁷

Llofnododd 40 o Aelodau Ceidwadol gynnig cynnar-yn-y-dydd hefyd yn galw am symud dyddiad y refferendwm oherwydd ei fod yn cyd-daro â'r etholiadau datganoledig yn yr Alban a Chymru.¹⁸

Ateb y Dirprwy Brif Weinidog ar y pwynt hwn oedd:

Is he seriously suggesting that people are incapable of taking more than one decision in a day, or of filling in an extra box to answer yes or no to a straightforward question? That is misleading and patronising at best.¹⁹

Roedd Aelodau eraill yn gwrthwynebu'r cynnig hwn hefyd ar y sail y gallai cynnal y refferendwm ar yr un diwrnod â'r etholiadau datganoledig arwain at niferoedd gwahanol o bobl yn pleidleisio ledled y DU. Er enghraifft, dywedodd Gavin Barwell AS:

... to look again at one issue - the timing of the referendum. I understand his [the Deputy Prime Minister] arguments on cost and convenience to electors, but a further consideration is the perception that the referendum is fair. Holding it on a day when my constituents in London have no local elections, but people in Scotland and Wales are electing their national Parliaments, could lead to a skewed result.²⁰

Yn ei ymateb, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth yr Aelodau:

I do not think it contemptuous to ask people - wherever they live in Wales, Scotland, England or whatever part of the United Kingdom - to have their say on the electoral system that elects Members to this House, and to ask them to do so on a very simple yes or no basis at a time when they are voting in any event. It underestimates the people of Wales, Scotland - the United Kingdom - to suggest somehow that they are incapable of deciding more than one thing on the same day.²¹

¹⁷ [Trafodion Tŷ'r Cyffredin, 5 Gorffennaf 2010, c26](#)

¹⁸ [44 MPs want vote moved, gwefan Newyddion y BBC, 27 Gorffennaf 2010](#)

¹⁹ [Trafodion Tŷ'r Cyffredin, 5 Gorffennaf 2010, c28](#)

²⁰ Ibid, c39

²¹ Ibid

Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Ddiwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol, dadleuodd Cymdeithas Hansard:

...a referendum held on the same day as the other elections scheduled for May 2011 offers the prospect of important administrative efficiencies and cost savings.

Fodd bynnag, nododd na fydd etholiadau yn cael eu cynnal yn Llundain ac yn nifer o ardaloedd eraill Lloegr a'i bod yn debygol y bydd y nifer sy'n pleidleisio yn is yn y manau hyn, ar gyfartaledd."²² Yn sgil hyn, rhybuddiodd:

If turnout proves to be on a par with, or lower than, average local election turnouts in recent years then this could raise serious issues about the legitimacy of the vote that the Government and Parliament will need to address.²³

Cyflwynodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA) dystiolaeth hefyd, a oedd yn nodi:

The AEA continues to be concerned about the trend for holding different electoral events on the same day, particularly where there are different voting systems and franchises in operation. Whilst we recognise the political and economic interest in doing so, the impact on voters and on the administration of polls should not be underestimated and careful consideration of these should inform the planning and the delivery of the various electoral events.²⁴

Fodd bynnag, dywedodd y Comisiwn Etholiadol y dylai fod yn bosibl sicrhau'r pleidleisiau ar gyfer y refferendwm ar yr un diwrnod â'r etholiadau ar gyfer Cynulliad cenedlaethol Cymru, senedd yr Alban a Senedd Gogledd Iwerddon²⁵, cyhyd ag y bod Llywodraeth y DU yn mynd i'r afael â'r risgiau a ganlyn:

- "The Government must support the [Electoral] Commission in putting in place a robust process to ensure that planning for 5 May 2011, across the whole of the UK, takes full account of the implications of the different polls due to take place on that date.
- The rules on how the referendum will be conducted must be clear from at least six months in advance. Adequate provision must be made for appropriate public awareness activities to support understanding of the elections and referendum processes by voters.
- Appropriate levels of funding must be made available for the delivery of the referendum and the scheduled elections together.
- The legal framework for the referendum must make provision for formal combination of the referendum poll with the scheduled elections".²⁶

²² [Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Ddiwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol, cyflwyniad ysgrifenedig gan Gymdeithas Hansard, VPR05, 7 Medi 2010](#)

²³ [Ibid](#)

²⁴ [Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Ddiwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol, dystiolaeth ysgrifenedig gan AEA, VPR 06, 7 Medi 2010](#)

²⁵ [Y Comisiwn Etholiadol, Parliamentary Voting System and Constituencies Bill : House of Commons Second Reading, 6 Medi 2010](#)

²⁶ [Y Comisiwn Etholiadol, Parliamentary Voting System and Constituencies Bill : House of Commons Second Reading, 6 Medi 2010](#)

3.2. Lleihau nifer yr etholaethau

Beirniadodd Mr Straw gynigion Llywodraeth y DU i leihau nifer yr etholaethau yn San Steffan, a dywedodd na fyddai'r Blaid Lafur yn barod i gefnogi Mesur Seneddol sy'n cynnwys cynigion pleidiol gwarthus a fyddai'n chwarae â ffiniau'r Tŷ Cyffredin.²⁷ Dadleuodd hefyd nad oedd angen diwygio'r system bresennol, gan ddatgan:

There never has been an issue about the need for constituencies to be broadly equal in size. That principle has been embodied in legislation for decades and has all-party support.²⁸

Yn ei ymateb, amddiffynodd y Dirprwy Brif Weinidog gynigion y Llywodraeth drwy ddatgan eu bod wedi'u seilio ar egwyddor syml o degwch.²⁹

Yn dilyn hynny, cadarnhaodd y Blaid Lafur ei phenderfyniad i wrthwynebu'r refferendwm ar y sail mai nod y Mesur Seneddol hefyd yw lleihau nifer yr etholaethau.³⁰ Cefnogwyd y farn hon hefyd gan rai o'r prif ymgeiswyr ar gyfer arweinyddiaeth y Blaid Lafur³¹ a Peter Hain AS, cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru.³²

Mae sawl sylwebydd hefyd wedi awgrymu y byddai lleihau nifer yr Aelodau Seneddol yn debygol o arwain at anghysonderau difrifol. Mae'r Athro Ron Johnston o Brifysgol Bryste yn credu, o dan y cynigion presennol, ei bod yn debygol iawn y bydd yn rhaid rhannu Ynys Wyth (sydd â 110,000 o etholwyr), gyda rhan o'r ynys yn ffurfio etholaeth â rhannau o Hampshire.³³ Pwysleisiwyd y pwynt hwn ymhellach gan Andrew Turner AS, yr Aelod dros Ynys Wyth, yn ei ymateb i ddatganiad y Dirprwy Brif Weinidog.³⁴

Nododd yr Athro Johnston hefyd na fydd y tair blynedd a ddarparwyd yn y Mesur Seneddol ar gyfer adolygu ffiniau presennol y DU yn rhoi digon o amser i'r Comisiynau Ffiniau gyflwyno adroddiad, oni bai bod cynnydd yn nifer y staff ac adnoddau'r Comisiynau neu fod y cyfnod ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei leihau'n sylweddol.³⁵

Mynegodd Cymdeithas Hansard nifer o bryderon ynghylch y cynigion ar gyfer cydraddoli i'r Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol, gan nodi ei bod yn

²⁷ [Trafodion Tŷ'r Cyffredin, 5 Gorffennaf 2010, c26](#)

²⁸ [Ibid.c26](#)

²⁹ [Ibid](#)

³⁰ [Cameron: Labour 'opportunistic' in opposing AV vote, gwefan Newyddion y BBC, 28 Gorffennaf 2010](#)

³¹ [Labour supports electoral reform – but not this unfair bill, The Guardian, 29 Gorffennaf 2010](#)

³² [Tories sandbagged Clegg on electoral reform, The Guardian, 28 Gorffennaf 2010](#)

³³ [Johnston, R \(2010\) Redrawing the constituency map – with a change of rules, Seminar yr Uned Gyfansoddiadol, 23 Gorffennaf 2010](#)

³⁴ [Trafodion Tŷ'r Cyffredin, 5 Gorffennaf 2010, c25](#)

³⁵ [Johnston, R \(2010\) Redrawing the constituency map – with a change of rules, Seminar yr Uned Gyfansoddiadol, 23 Gorffennaf 2010](#)

ymddangos fel pe bai maint newydd arfaethedig Tŷ'r Cyffredin wedi'i ddyfeisio o ddim.³⁶ Aeth yn ei flaen i ddweud:

Although an understandable response to the expenses scandal and the recession, it is not axiomatic that cutting the cost of politics will enhance and be to the benefit of Parliament and our wider democracy. Prior to the emergence of these proposals there was already concern about a mismatch between the scrutiny mission of Parliament and its capacity to carry out that mission. The Hansard Society therefore recommends that, before proceeding with the reform, an audit of an MP's key roles and functions should be performed to assess what impact, if any, the reduction in numbers will have on key areas of activity: for example, on public bill committee membership and workloads; on select committee activity etc.³⁷

Nododd hefyd:

Unless a move to reduce the number of MPs is accompanied by a parallel commitment to reduce the size of the Government's payroll vote, it will merely enhance the executive at the expense of the legislature by reinforcing the power of the frontbench in proportion to the overall size of the House of Commons.³⁸

3.3. Amseru

Beirniadodd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Ddiwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol y diffyg amser sydd ar gael i Senedd y DU graffu'n effeithiol ar gynigion Llywodraeth y DU.³⁹ Nododd Graham Allen AS, Cadeirydd y Pwyllgor, mewn llythyr at y Dirprwy Brif Weinidog:

Your legislative timetable has put me and my committee in an extremely difficult position. When the House agreed to establish the committee, it did so, in the words of the Deputy Leader of the House, "to ensure that the House is able to scrutinise the work of the Deputy Prime Minister". In the case of these two bills you have denied us any adequate opportunity to conduct this scrutiny.⁴⁰

Mynegwyd barn debyg gan yr Athro Robert Hazell, Cyfarwyddwr Uned Gyfansoddiadol Coleg Prifysgol Llundain:

Constitutional change is too important to rush in this way. These bills⁴¹ have been introduced with no consultation, no Green or White Paper, and the government now wants to push them through Parliament at equally reckless speed. Both bills raise important constitutional issues, which demand proper scrutiny in both Houses of Parliament.⁴²

Penderfynodd Pwyllgor Dethol Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin, yn ei gyfarfod ar 27 Gorffennaf, y byddai'n craffu ar effaith deddfwriaeth arfaethedig y Llywodraeth

³⁶ [Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Ddiwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol, cyflwyniad ysgrifenedig gan Gymdeithas Hansard, VPR05, 7 Medi 2010](#)

³⁷ Ibid

³⁸ Ibid

³⁹ [MPs 'denied enough time to study electoral reform bill', The Guardian, 2 Awst 2010](#)

⁴⁰ [Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Ddiwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol, Parliamentary Voting System and Constituencies Bill : 1st Report, 2 Awst 2010](#)

⁴¹ Y ddau Fesur hyn yw'r Mesur Seneddol ynghylch Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau a'r Mesur Seneddol ynghylch Seneddau Cyfnod Penodol ([gweler Papur Ymchwil Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau 10/066](#))

⁴² [Coleg Prifysgol Llundain : Yr Uned Gyfansoddiadol, Political Reform bills face stormy passage, says Constitution Unit, 22 Gorffennaf 2010](#)

ar Gymru mewn perthynas â dyddiad y refferendwm a lleihau nifer y seddi yng Nghymru. Mae wedi gwahodd cyflwyniadau ysgrifenedig ar y materion hyn gan y cyhoedd, yn ogystal ag academyddion a sylwebyddion eraill. Dywedodd David Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor:

The Government's proposals for constitutional reform would have a profound impact on how Wales is represented at Westminster. Some commentators have also questioned whether the people of Wales should reasonably be expected to participate in a referendum and an Assembly election on the same day. The Committee is keen to hear the Government's case for reducing the number of MPs in Wales and is equally keen to hear from the widest number of people about the merits of the Government's proposals.⁴³

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau oedd 17 Medi 2010.

⁴³ [Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig Tŷ'r Cyffredin, *The Welsh Affairs Committee announces an inquiry on the Implication for Wales of the Government's Proposals for Constitutional Reform*, 29 Gorffennaf 2010](#)

4. Goblygiadau i Gymru

4.1. Dyddiad y refferendwm

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi datgan y bydd y refferendwm arfaethedig ar y system Pleidlais Amgen yn cael ei gynnal ar 5 Mai 2010, sef yr un diwrnod â'r etholiadau ar gyfer cyrff datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a'r etholiadau lleol yn Lloegr.

Bu beirniadaeth eang ynghylch y penderfyniad i gynnal nifer o etholiadau ar wahanol faterion ar yr un diwrnod. Er enghraifft, mae'r Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog, wedi nodi ei fod am i etholiadau'r Cynulliad gael eu cynnal ym mis Mehefin 2010 i osgoi cynnal dau etholiad ar yr un dyddiad.⁴⁴

O dan Adran 4 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*⁴⁵ ('Deddf 2006'), gall yr Ysgrifennydd Gwladol amrywio dyddiad etholiad cyffredinol cyffredin naill ai heb fod yn fwy na mis yn gynt neu fis yn ddiweddarach na'r dydd lau cyntaf ym mis Mai. Yn ei ymateb i ddatganiad y Dirprwy Brif Weinidog, gofynnodd Kevin Brennan AS a fyddai'r Llywodraeth yn ystyried defnyddio'r ddarpariaeth hon i addasu etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn y dyfodol:

... if the Government received a request from the Welsh Assembly under the Government of Wales Act 1998 [sic] to delay the Welsh Assembly elections by a month, as is allowed under regulations, what will the Government's response be? Is the Deputy Prime Minister ruling that possibility out?⁴⁶

Yn ei ymateb, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog:

I will of course consult the Secretary of State for Wales, and indeed, the Secretary of State for Scotland. I know that the Secretary of State for Wales is in Cardiff today. If that request is made, we will of course have to take a decision at that time.⁴⁷

4.2. Datgysylltu etholaethau Cymru

Mae Adran 11 o'r Mesur Seneddol yn gwneud darpariaeth benodol mewn perthynas â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r adran hon yn diwygio Adran 2 (yn ogystal ag Atodlen 1 a pharagraff 1 o Atodlen 11) o Ddeddf 2006 i nodi mai etholaethau'r Cynulliad yw'r etholaethau a nodir yng *Ngorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) 2006*⁴⁸, fel y'i diwygiwyd. Yr effaith yw na fyddai unrhyw newidiadau a wneir yn y dyfodol i etholaethau Seneddol o dan y rheolau newydd a gyflwynir gan y Mesur Seneddol hwn yn newid

⁴⁴ [Vote change ballot set to clash with assembly elections, gwefan Newyddion y BBC, 2 Gorffennaf 2010](#)

⁴⁵ [Deddf Llywodraeth Cymru 2006 \(c32\)](#)

⁴⁶ [Trafodion Tŷ'r Cyffredin, 5 Gorffennaf 2010, c40](#)

⁴⁷ [Ibid, c41](#)

⁴⁸ [Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholaethol y Cynulliad \(Cymru\) 2006](#)

etholaethau lleol a rhanbarthol y Cynulliad ac y bydd nifer Aelodau'r Cynulliad yn parhau'n 60.

Mae darpariaeth debyg i ddatgysylltu etholaethau Senedd yr Alban a Senedd y DU eisoes ar waith yn yr Alban. Roedd *Deddf Senedd yr Alban (Etholaethau) 2004*⁴⁹ yn diwygio *Deddf yr Alban 1998*⁵⁰ drwy gael atodlen newydd yn lle Atodlen 1 i'r Ddeddf honno, sydd wedi cael gwared ar y cyswllt statudol rhwng etholaethau Senedd yr Alban ac etholaethau Tŷ'r Cyffredin ac sy'n cadw'r rhanbarthau presennol a nifer Aelodau rhanbarthol Senedd yr Alban. Mae hyn wedi sicrhau bod nifer yr Aelodau yn parhau'n 129.⁵¹

4.3. Lleihau nifer yr etholaethau yng Nghymru

Bydd cynigion y Mesur Seneddol i leihau nifer yr Aelodau Seneddol drwy'r DU yn effeithio ar Gymru mewn modd anghymesur. Maint cyfartalog etholaeth yng Nghymru yw 56,600. Nid oes yr un o'r 40 o etholaethau Seneddol presennol yng Nghymru yn cyrraedd y nifer gyfartalog o 75,000 o etholwyr fel y nodir yn y Mesur Seneddol. Yn Etholiad Cyffredinol 2010, De Caerdydd a Phenarth oedd â'r nifer fwyaf o etholwyr yng Nghymru gyda 73,700 o etholwyr, ac Arfon oedd â'r nifer leiaf gyda 41,200 o etholwyr.⁵²

Gan fod gan Gymru nifer o etholaethau sydd o dan y ffigur canolrif ar gyfer y DU ar hyn o bryd, mae'n debygol y bydd nifer yr Aelodau Seneddol o Gymru yn San Steffan yn lleihau o 40 i 30. Drwy ddiwygio'r broses ar gyfer cynnal adolygiadau ffiniau, bydd y rheol bresennol sy'n datgan na fydd gan Gymru lai na 40 o Aelodau Seneddol yn cael ei diddymu hefyd.⁵³

Ni fydd maint a nifer yr etholaethau Seneddol newydd ar gyfer Gymru'n cael eu cyhoeddi nes y bydd Comisiwn Ffiniau Cymru'n cyflwyno adroddiad ffiniau i Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae cymal (8) (3) o'r Mesur Seneddol yn nodi bod yn rhaid gwneud hyn erbyn 1 Hydref 2013, a phob pum mlynedd ar ôl hynny.

Fodd bynnag, ym mis Mai 2010, dadansoddodd y Gymdeithas Diwygio Etholiadol yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer aildrefnu a lleihau nifer yr etholaethau yng Nghymru o 40 i 30.⁵⁴ Mae tabl sy'n crynhoi'r opsiynau hyn wedi'i gynnwys isod:

⁴⁹ [Deddf Senedd yr Alban \(Etholaethau\) 2004 \(c.13\)](#)

⁵⁰ [Deddf yr Alban 1998 \(c.46\)](#)

⁵¹ [Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. The Scottish Parliament \(Constituencies\) Bill, Research Paper 04/12, 3 Chwefror 2004](#)

⁵² [Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Papur Ymchwil 10/1373, 2010 General election Results, Mai 2010](#)

⁵³ Gosodwyd y gynrychiolaeth ar gyfer Cymru yng Nghynhadledd y Llefarydd ym 1944, gyda lleiafswm o 35 o seddi, sydd bellach yn 40. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, The Parliamentary Voting and Constituencies Bill Research Paper 10/55, 1 Medi 2010, Adran 4.8.](#)

⁵⁴ [Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, 'Reduce and Equalise' and the Governance of Wales, Mai 2010](#)

Sedd newydd	Prif ragflaenydd	Prif ardaloedd eraill y sedd newydd
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU		
Brycheiniog a Threfaldwyn	Brycheiniog a Sir Faesyfed	Sir Drefaldwyn (prif ran)
Caerfyrddin	Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	Hanner Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Ceredigion a Rhaeadr	Ceredigion	Gorllewin Powys, Gogledd Sir Benfro
Gwynedd a Machynlleth	Dwyfor Meirionydd	Arfon (ardal Caernarfon), Sir Drefaldwyn (ardal Machynlleth)
Llanelli	Llanelli	Gŵyr (ardal Pontarddulais), Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr (ardal Rhydaman)
Penfro	Preseli Sir Benfro	Hanner Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
GOGLEDD CYMRU		
Conwy ac Abergale	Gorllewin Clwyd	Aberconwy (ardal Conwy)
Dinbych, Llangollen a Dyffryn Clwyd	De Clwyd	Gorllewin Clwyd (ardal Rhuthun), Dyffryn Clwyd (ardal Dinbych)
Y Fflint a'r Rhyl	Dyffryn Clwyd	Delyn (ardal y Fflint)
